**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 15-01(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 24 Hydref 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm - 5.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Cefndir**

1. Cyhoeddwyd Cynllun Wrth Gefn drafft ar gyfer ymdrin ag argyfwng BSE naturiol mewn defaid ar 28 Medi 2001. Fe'i lluniwyd gan Lywodraeth y DU gan ymgorffori sylwadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Cynulliad Cenedlaethol a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Ymateb yw'r Cynllun Wrth Gefn i'r feirniadaeth yn Adroddiad yr Ymchwiliad i BSE (Adroddiad Phillips) na fu digon o gynllunio wrth gefn ar gyfer BSE mewn gwartheg. Mae hefyd yn bodloni deddf Ewropeaidd sy'n gofyn i'r DU ac aelod-wledydd eraill yr UE lunio cynllun o'r fath.

2. Mae'r ffaith bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud i weld a allai'r ysfa fod yn arwydd o bresenoldeb BSE mewn defaid wedi bod yn wybodaeth gyhoeddus ers tro byd. Mae'r FSA wedi cyhoeddi ar y mater sawl gwaith. Roedd Adolygiad yr FSA o'r Rheolau ar BSE a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2000 yn trafod y mater yn fanylach. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd yr FSA ddatganiad ar 3 Awst ar y perygl o BSE mewn defaid ac ar yr ymchwil ddiweddaraf. Mae'r datganiad hwnnw i'w weld ar www.foodstandards.gov.uk

**Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd**

3. Mae'r Cynllun Wrth Gefn ei hun ar wefan y Cynulliad yn http://www.cymru.gov.uk/keypubconsultation/ Gofynnwyd i'r rheini sydd â diddordeb i ymateb erbyn 21 Rhagfyr 2001. Yn unol â pholisi'r Cynulliad Cenedlaethol ar fod yn agored, caiff yr holl ymatebion eu rhoi yn Llyfrgell y Cynulliad i'r cyhoedd eu gweld oni bai bod ymatebwyr yn gofyn yn benodol i'w sylwadau gael eu cadw'n gyfrinachol. Caiff dadansoddiad o'r ymatebion eu hanfon at DEFRA iddynt eu hystyried gyda sylwadau o rannau eraill y DU.

4. Yr ysgogiad dros gyhoeddi'r Cynllun Wrth Gefn fel dogfen ddrafft oedd sicrhau bod y fersiwn derfynol yn ymarferol a hylaw. Mae'n bwysig iawn felly ein bod yn clywed ymateb y diwydiant defaid a'r rheini fydd ynghlwm wrth weithredu'r Cynllun pe bai ei angen. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ymgorffori eu gwybodaeth a'u profiad helaeth. Bwriedir i'r Cynllun Wrth Gefn fod yn ddogfen waith a fydd yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni profiad a digwyddiadau.

5. Mae'r Cynllun Wrth Gefn drafft yn rhan o strategaeth ochelgar y Llywodraeth i reoli risg a diogelu iechyd y cyhoedd. Mae rhaglen ymchwil yn mynd rhagddi i weld a yw BSE yn bod yn y ddiadell genedlaethol. Mae'r ymchwil wedi'i rhannu'n ddwy ffrwd. Mae'r naill yn seiliedig ar astudio deunydd

ymenyddol o ddechrau'r 1990au. Cafwyd amheuon difrifol erbyn hyn ynghylch dilysrwydd y deunydd hwnnw. Mae'r llall yn astudio ymenyddiau defaid sydd wedi marw o'r ysfa yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddwy ffrwd yn gwbl ar wahân ac yn mynd rhagddynt.

6. Ni châi'r Cynllun neu rannau perthnasol ohono ei roi ar waith ond os byddai canlyniadau gwaith ymchwil yn awgrymu bod yna BSE ar ddefaid neu os gwelid bod angen tynhau mesurau diogelwch. Byddai SEAC yn gorfod astudio a chloriannu'r canlyniadau hyn. Pe ceid wedyn bod BSE yn y ddiadell genedlaethol, byddai'n ergyd yr un mor drom i'r diwydiant defaid Ewropeaidd. Bydd yn rhaid wrth gynlluniau wrth gefn a mesurau economaidd ar gyfer yr UE cyfan ac yn y cyfamser, mae'n bwysig ein bod yn parhau i rannu ymchwil berthnasol.

**Cwmpas**

7. Mae'r rhagymadrodd i'r Cynllun Wrth Gefn yn esbonio'r rhesymau dros ei gyhoeddi, pam nad yw'n bosib atgynhyrchu'r mesurau a gymerwyd ar gyfer gwartheg ac yn rhoi'r Cynllun yng nghyd-destun strategaeth gyffredinol y Llywodraeth i reoli risg. Mae'r bennod gyntaf yn disgrifio'r camau y byddai'r FSA yn eu cymryd, yn sgil cyhoeddi canlyniadau ymchwil newydd, i benderfynu a fyddai gofyn newid y cyngor presennol ar fwyta cig dafad. Mae'r ail bennod yn disgrifio'r camau y byddai gofyn eu cymryd ar unwaith pe ceid bod BSE yn ymddangos yn naturiol mewn defaid. Mae'n ymdrin â diogelu'r gadwyn fwyd, moddion i bobl ac anifeiliaid a chynhyrchion eraill sy'n deillio o ddefaid a geifr.

8. Mae'r Cynllun Wrth Gefn wedyn yn ymdrin â'r rhaglen lladd a gwaredu, y goblygiadau i'r diwydiant ffermio a'r economi wledig ac adfer y diwydiant defaid. Mae'n ystyried hefyd dulliau ar gyfer sgrinio a gwahanu defaid o enoteipiau gwahanol.

**Gweithredu i ddileu'r ysfa**

9. Bydd y diwydiant yn parhau'n agored i berygl tra phery'r ysfa, a thrwy hynny y posibilrwydd o BSE, mewn defaid. Rhaid felly dileu'r ysfa. Mae SEAC yn pwyso bod hynny'n digwydd. Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud i fwrw'r ysfa o'r ddiadell trwy fagu â'r rheini sydd ag ymwrthedd iddo. Gwyddys fod rhai genoteipiau'n fwy tebygol o ddal yr ysfa a TSEs eraill. Cynllun cenedlaethol trwy Brydain yw'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer yr Ysfa sy'n ceisio magu ymwrthedd diadell Prydain i'r ysfa trwy wella ei hadeiladwaith genetig. Lansiwyd cam cyntaf y Cynllun yn gynharach eleni er i glwy'r traed a'r genau arafu'r broses rywfaint. I ddechrau, bydd Cam I yn cynnal profion genoteip ar hyrddod, er y bwriedir cynnal profion ar rai mamogiaid hefyd mewn diadellau pedigri ar frig y gadwyn fridio. Bydd Camau II a III, sydd heb gychwyn eto, yn golygu monitro diadellau'r Cynllun a chael gwared ar yr anifeiliaid sydd fwyaf agored i'r ysfa. Cynllun Prydeinig yw'r Cynllun Cenedlaethol yr Ysfa, wedi'i noddi gan DEFRA.

10. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu Cynllun Genoteipio Mamogiaid Cymru a fydd yn cael ei redeg ar ein rhan gan Strategaeth Ddefaid Cymru (WSS). Ei nod fydd cynyddu nifer y profion a wneir, yn y tymor magu hwn i ddechrau a chanolbwyntio ar famogiaid yn niadell gnewyllyn y WSS er mwyn magu o ddefaid y gwyddys eu hymwrthedd i TSEs. Mae profion eleni, a wnaed cyn cynnal profion yr

NSP, i bob pwrpas wedi’u cwblhau gyda 25,000 o famogiaid yng Nghymru wedi’u profi erbyn tymor magu 2001. Trwy gynnal y fenter hon, rydym wedi gwrthweithio, yn rhannol o leiaf, rai o effeithiau’r oedi a fu wrth roi’r NSP ar waith ac mae ffermwyr Cymru bellach mewn sefyllfa well i allu magu defaid sydd ag ymwrthedd i’r ysfa.

**Casgliad**

11. Gwahoddir aelodau i nodi’r cynigion yn y Cynllun Wrth Gefn hwn ac i gynnig sylwadau y gellid eu hymgorffori yn y Cynllun terfynol.